



Ariannu'r Loteri Genedlaethol i gefnogi cyflwyno prosiect The Agency ledled y DU, rhaglen greadigol, unigryw i entrepreneuriaid ifanc

Bydd Theatr Genedlaethol Cymru a FabLab Belfast yn ymuno â'r prif bartneriaid, Battersea Arts Centre, Contact a People's Palace Projects, i redeg The Agency mewn 4 lleoliad ledled y DU.

Mae The Agency - rhaglen entrepreneuriaeth greadigol sy'n cefnogi pobl ifanc i droi eu syniadau yn realiti - wedi sicrhau ychydig dros £873,000 o ariannu'r Loteri Genedlaethol o'r Gronfa Loteri Fawr i gefnogi'r dasg o gyflwyno'r prosiect yn genedlaethol dros y tair blynedd nesaf.

Bydd Theatr Genedlaethol Cymru a FabLab Belfast nawr yn gweithio ar y cyd gyda'r prif bartneriaid, Battersea Arts Centre, Contact, Manceinion and People's Palace Projects i ddyblu ôl troed The Agency ledled y DU o fis Medi 2018, gan weithio gyda mwy o bobl ifanc nag erioed o'r blaen.

Cadarnhaodd ymchwil ddiweddar fod teuluoedd incwm isel a phobl ifanc ledled y DU yn dal i gael trafferth ymdopi ar ôl yr argyfwng ariannol ¹. O blith yr hanner miliwn a mwy o bobl ifanc 16-24 mlwydd oed sy'n ddi-waith, y bobl ifanc o ardaloedd â diffyg gwasanaethau ledled led y wlad yw'r sawl sy'n dioddef fwyaf.

Mae The Agency yn edrych yn benodol am bobl ifanc mewn rhai o'r cymunedau hyn. Mae'n unigryw ymhlith rhaglenni hyfforddiant neu ddatblygu sgiliau eraill oherwydd mae'n cyfuno'r gorau o greadigrwydd a menter, gan roi pobl ifanc mewn cysylltiad â mudiadau celfyddydau a'r sector busnes, gan ganiatáu iddynt wneud y mwyaf o ymagweddau creadigol, rhwydweithiau a sgiliau'r diwydiannau bywiog hyn.

Mae'r rhaglen yn rhoi pobl ifanc ar y blaen, ac yn eu cefnogi i wireddu eu potensial i greu newidiadau, ar gyfer nhw eu hunain a'r bobl o'u hamgylch. Yn y modd hwn, mae The Agency yn cefnogi datblygiad y genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid cymdeithasol-cydwbybodol.

Gan ddilyn model y prosiect newid cymdeithasol radical, *Agência de Redes Para a Juventude* a sefydlwyd gan Marcus Faustini yn favelas Brasil, cafodd ei addasu ar gyfer y DU a'i lansio gyntaf ym Manceinion a Llundain yn 2013 gyda chefnogaeth Sefydliad Calouste Gulbenkian.

Dywedodd Joe Ferns, Cyfarwyddwr Gwybodaeth a Pholisi y DU, y Gronfa Loteri Fawr: "Mae ymagwedd The Agency at roi'r pŵer yn nwylo pobl ifanc i fynd i'r afael â materion sy'n bwysig iddyn nhw a'u cymunedau wedi creu argraff dda iawn arnom. Mae'n wych bod y Loteri Genedlaethol yn gallu dod â'r rhaglen i Gymru a Gogledd Iwerddon. Bydd ehangu The Agency yn rhoi cyfleoedd i hyd yn oed mwy o bobl ifanc i ddefnyddio'u profiadau a'u doniau at ddibenion cadarnhaol yn yr ardaloedd ble maen nhw'n byw."

Dywedodd David Jubb, Cyfarwyddwr Artistig, Battersea Arts Centre: "Mae'r sector diwylliannol yn tueddu o fod yn eithaf da am fynd â sioeau ar daith, ond pan ddaw at rannu ymagweddau creadigol sy'n

¹ *<http://www.resolutionfoundation.org/>

gweithio, mae gennym lawer o ffordd y fynd. Felly, rydw i'n hynod falch o fod wedi clywed am The Agency gan bartneriaid ym Mrasil, a bod Battersea Arts Centre a Contact nawr wedi creu partneriaeth gyda Theatr Genedlaethol Cymru a FabLab yn Belfast i ddatblygu'r rhaglen aruthrol hon ymhellach er budd pobl ifanc. Yn syml, mae'n un o'r prosiectau mwyaf cyffrous rydw i erioed wedi cael y pleser o fod yn rhan ohono oherwydd mae'n rhoi pobl ifanc ar y blaen ac yn eu cefnogi i wireddu eu potensial i wneud newid. Mae eu heffaith yn gallu trawsnewid pethau, iddyn nhw a'u cymunedau hefyd."

Dywedodd Matt Fenton, Cyfarwyddwr Artistig, Contact: *"Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at y datblygiad mawr newydd hwn mewn rhaglen a allai newid bywydau pobl ifanc. Mae taith y prosiect, o favelas Rio, i Fanceinion a Llundain, a nawr i Gymru a Gogledd Iwerddon, wedi bod yn anhygoel. Mae'r bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan wedi bod yn ysbrydoledig, ac mae'r prosiectau maen nhw'n eu datblygu trwy'r rhaglen yn cael gwir effaith yn eu cymunedau".*

Dywedodd Adam Wallace, Rheolwr Prosiect, FabLab Belfast: *"Mae Belfast yn ddinas unigryw i redeg y prosiect creadigol ac unigryw hwn. Yn hanesyddol, mae pobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon wedi cael eu hanwybyddu fel cyfranwyr cadarnhaol i'w cymunedau sy'n aml yn enwadol, a rhaid croesawu rhaglen sy'n adeiladu sgiliau parhaol ac yn eu cyflwyno mewn golau entrepreneuriaidd. Yn Belfast, byddwn yn recriwtio Asiantau o bob cwr o'r gymuned i ddangos yr effaith gadarnhaol ar berthnasau da bydd y rhaglen hon yn ei chael. Nod FabLab Belfast yw cynnig arbenigrwydd creadigol gyda thechnolegau digidol i'r Asiantau i'w cefnogi i ddylunio datrysiadau dan arweiniad menter a fydd yn buddio'u cymunedau".*

Kully Thiarai, Cyfarwyddwr Artistig, Theatr Genedlaethol Cymru: *"Mae ein rhaglen TEAM, sy'n ymrwymo â dros 1,000 o bobl o bob rhan o'r gymuned yng Nghymru a thu hwnt, erioed wedi bod yn rhan ganolog o'n cwmni. Mae egwyddorion ac amcanion sylfaenol The Agency yn adlewyrchiad gwych o waith TEAM. Bydd yn creu gwir gyfleoedd ystyrlon i bobl ifanc - a gorau oll, yn eu rhoi yn y blaen, ble dylen nhw fod. Ni allwn aros i weithio gyda'n ffrindiau a chymdogion mawr eu bri ledled y DU ac i ddod â'r prosiect gwych hwn i Gymru, a harneisio a meithrin y naws entrepreneuriaidd rydym yn gwybod sydd gan bobl ifanc Cymru."*

Mae The Agency yn cefnogi pobl ifanc, 15-25 oed, trwy raglen hyfforddiant drwyadl 28-wythnos i ddatblygu eu prosiectau newid cymdeithasol eu hunain gyda, ac er budd, y gymuned maen nhw'n byw ynddi. Eu creadigrwydd a'u syniadau sy'n gyrru'r prosiect, wrth iddynt ennill sgiliau rheoli prosiect a busnes, adeiladu rhwydweithiau a datblygu technegau creadigol i ddatrys problemau er mwyn troi eu huchelgeisiau entrepreneuriaidd yn realiti. Yr Asiantau sy'n penderfynu at ffocws y fenter; yr unig gyfarwyddyd yw bod rhaid creu newid cynaliadwy iddyn nhw a'u gymuned o'u hamgylch. Y tu hwnt i'r rhaglen 28-wythnos gychwynnol, mae'r mudiadau celfyddydau yn parhau i gynnig cefnogaeth bersonol hir dymor i bob Asiant a'u prosiect gan ddefnyddio staffio ac adnoddau craidd.

Lansiodd The Agency gyntaf yn y DU yn 2013 gyda'r prif bartneriaid, Battersea Arts Centre, Contact a People's Palace Projects. Ymhlith y sawl gymerodd ran yn The Agency mae: Adem Howard, 18 mlwydd oed, sy'n rhedeg *Crumbs* sy'n cynnig cyrsiau pobi i blant lleol, gyda hanner ohonynt yn dod o gartrefi sy'n dibynnu ar ddarpariaethau banc bwyd; Seshie Henry, 17 mlwydd oed, a sefydlodd IAMNEXT, plattform ar gyfer artistiaid cerddoriaeth tanddaearol newydd yn y DU; Daisy Kateeba, 19 mlwydd oed, a lansiodd casgliad o ddillad i fabis a phlant bach, ynghyd â digwyddiadau rhannu sgiliau i famau ifanc i hyrwyddo cydberthynas ac atal unigedd cymdeithasol; Teasha Louise, 25 mlwydd oed, a ddatblygodd rhaglen mentora chwaraeon i fenywod, gan hyrwyddo cynhwysiant a mynediad i bawb; Beth Tipping, 16 mlwydd oed, sylfaenydd *Boundless Books*, menter lenyddiaeth i bobl ifanc mewn gofal, yn cynnig llyfrau am ddim a chlwb llyfrau rhith trwy rwydweithiau cyfeillion gohebol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae 28 prosiect menter gymdeithasol wedi cael eu datblygu gan Asiantau ym Manceinion a Llundain. Derbyniodd pob un £2,000 o gefnogaeth ariannol gychwynnol trwy'r rhaglen, gyda'r Asiantau yn codi cyfanswm o £71,562 ar ben hynny i redeg eu prosiectau. Mae'r prosiectau hyn wedi cyrraedd bron i 8,000 o gyfranogwyr a chynulleidfaoedd cymunedol. Hyd yma, mae 24 o'r rhain yn parhau i weithredu'n annibynnol.

Draw yn Rio de Janeiro, mae sylfaenydd The Agency, Marcus Faustini wedi arwain y rhaglen ers 2011, gan weithio gyda dros 4,000 o bobl ifanc (700y flwyddyn am y chwe blynedd diwethaf, dros 19 cymuned *favela*). Bu *Agência de Redes Para a Juventude* arloesi ei fethodoleg fel ymateb i fentrau cyrff anllywodraethol a

pholisi a oedd yn tueddu i geisio mynd i'r afael â heriau cymdeithasol ac economaidd y *favelas* trwy geisio gosod datrysiadau o'r top i lawr, a oedd yn aml yn gweithio yn erbyn egni'r bobl leol, yn hytrach nag ar y cyd â hwy. Mae potensial y prosiect i drawsnewid wedi cael ei adnabod gan y Ford Foundation, a gyhoeddodd ariannu yn ddiweddar er mwyn i'r grŵp yn Rio ganolbwyntio ar ddatblygu arweinwyr ifanc a phrosiectau cymunedol gydag effaith fawr dros y tair blynedd nesaf. Mae *Agência de Redes Para a Juventude* hefyd wedi bod yn destun nifer o fentrau ymchwil academaidd, gan gynnwys astudiaeth effaith gan Brifysgol Stanford i'w gyhoeddi yn hwyr yn 2017.

Mae **The Agency** yn brosiect ar y cyd rhwng Battersea Arts Centre, Contact a People's Palace Projects, mewn partneriaeth â FabLab a Theatr Genedlaethol Cymru. Fe'i hariennir gan y Gronfa Loteri Fawr gan ddefnyddio arian a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i achosion da, a chafodd ei gefnogi yn wreiddiol gan Sefydliad Calouste Gulbenkian.

contactmcr.com/project/theagency/

bac.org.uk/content_category/3381/young_people/the_agency_1525

Cyswllt y was ar gyfer The Agency:

Jenn Reynolds: jenn@jenniferreynoldspr.co.uk / +44 7736 84 22 37

**BATTERSEA
ARTS CENTRE**

CONTACT

20TH people's
palace
projects
ANNIVERSARY
Queen Mary University of London

**FABLAB
Belfast**


Ashton Community Trust

**NATIONAL
THEATRE**  **WALES**

 CALOUSTE GULBENKIAN
FOUNDATION
UK BRANCH

Nodiadau i Olygyddion:

Mae'r **Gronfa Loteri Fawr** yn defnyddio arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i helpu cymunedau wireddu'u huchelgeisiau. O brosiectau bach, lleol i fentrau ledled y DU, mae ei ariannu'n dod â phobl ynghyd i wneud gwahaniaeth i'w hiechyd, llesiant a'r amgylchedd. Ers Mehefin 2004, mae wedi dyfarnu £8.5 biliwn i brosiectau sy'n gwella bywydau miliynau o bobl.

[Gwefan](#) | [Twitter](#) | [Facebook](#) | [Instagram](#)

Mae **Sefydliad Calouste Gulbenkian** yn sefydliad elusennol rhyngwladol gyda diddordebau diwylliannol, addysgol, cymdeithasol a gwyddonol. Wedi'i leoli yn Lisbon, gyda changhennau yn Llundain a Paris, mae'r Sefydliad mewn sefyllfa freintiedig i gefnogi gwaith cenedlaethol a rhyngwladol sy'n mynd i'r afael â materion cyfoes. Diben Cangen y DU, yn Llundain, yw darparu gwelliannau hir dymor i lesiant yn arbennig ar gyfer y sawl mwyaf agored i niwed, trwy greu cysylltiadau ar draws ffiniau (ffiniau cenedlaethol, cymunedau, disgyblaethau a sectorau) sy'n cyflawni gwerth cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae Sefydliad Calouste Gulbenkian y tu ôl i'r Ymchwiliad i Rôl Ddinesig Mudiadau'r Celfyddydau. Cyhoeddwyd adroddiad yn crynhoi canfyddiadau cyfnod cyntaf yr Ymchwiliad hwn ym mis Gorffennaf ac mae mewn cyfnod ymgynghori ar hyn o bryd. The Agency yw un o'r 40 astudiaeth achos y mae'r Ymchwiliad wedi'i phroffilio i ddangos arferion ysbrydoledig ac arloesol.

www.civicroleartsinquiry.gulbenkian.org.uk

Yr adroddiad yn llawn: bit.ly/reportcivicarts

Mae **People's Palace Projects** yn elusen y celfyddydau a chyfiawnder cymdeithasol gan arweiniad Paul Heritage ac mae wedi'i leoli yn Adran Ddrama, Queen Mary, Prifysgol Llundain. Gyda ffocws ymchwil ar hawliau dynol ac anghydraddoldeb, mae PPP yn gweithio gydag artistiaid sy'n adnabyddus yn fyd-eang a gyda chymunedau o blant mewn gofal cymdeithasol yn y DU i gantorion digartref i bobl frodorol ym Mrasil. Mae PPP yn sefydliad Portffolio Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr, ac yn cael ei gydnabod fel arweinydd ym maes cyfnewid a chydweithio creadigol DU-Brasil.

www.peoplespalaceprojects.org.uk

Mae **Battersea Arts Centre** yn ganolfan gyhoeddus ble mae pobl yn dod ynghyd i fod yn greadigol, i weld sioe, i archwilio treftadaeth leol, i chwarae neu ymlacio. Diben y mudiad yw ysbrydoli pobl, cymryd risgiau creadigol a siapio'r dyfodol.

Mae Battersea Arts Centre yn annog pobl i brofi a datblygu syniadau newydd gydag aelodau o'r cyhoedd - proses a elwir yn Scratch. Defnyddir Scratch gan artistiaid i wneud theatr, gan bobl ifanc i ddatblygu syniadau entrepreneuriaidd ac fel proses defnyddiol i unrhyw un sydd eisiau bod yn greadigol.

Mae ardal De Orllewin Llundain a hen neuadd y dref ble mae Battersea Arts Centre wedi'i leoli, yn llawn treftadaeth. Mae'r mudiad hefyd yn geidwad Casgliad Wandsworth o arteffactau hanesyddol, gan ddefnyddio creadigrwydd i archwilio'r gorffennol a dychmygu'r dyfodol.

Mae Scratch wedi cael ei fabwysiadu mor bell i ffwrdd â Sydney ac Efrog Newydd ac mae sioeau a phrosiectau a ddatblygir gan bobl yn Battersea Arts Centre yn teithio ar draws y DU a'r holl fyd. Mae'r mudiad wedi llwyddo sbarduno ymagweddau newydd at greadigrwydd ledled y byd.

Bob blwyddyn, mae Battersea Arts Centre:

- Yn croesawu dros 160,000 o bobl i'w adeilad
- Yn ysbrydoli'r gymuned leol i fod yn greadigol, gan gynnwys 3,000 o bobl ifanc
- Yn gweithio gyda dros 400 o artistiaid i gynnal dros 800 o berfformiadau ac yn rhoi o leiaf 10 sioe a phrosiect ar daith

www.bac.org.uk | [@battersea_arts](https://twitter.com/battersea_arts)

Contact yw ble mae pobl ifanc yn newid eu bywydau trwy'r celfyddydau. Wedi'i leoli ym Manceinion, mae Contact yn lleoliad bywiog, proffesiynol a chyfoes ar gyfer y theatr a'r celfyddydau, gyda phobl ifanc yn gyrru pob agwedd o'i waith. Wedi'i sefydlu gyntaf fel theatr yn 1972, yn 1999 ailddyfeisiodd Contact ei hun fel man creadigol amlddisgyblaethol yn arbenigo mewn cynhyrchu gwaith gyda phobl ifanc 13 i 30 oed, a darparu cyfleoedd ar eu cyfer.

Heddiw, mae gan Contact gydnabyddiaeth yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel arloeswr yn y maes o arweinyddiaeth a chreadigrwydd ieuenctid. Mae Contact yn gweithio gyda phobl ifanc Manceinion Fwyaf a gydag artistiaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i greu modelau newydd o ymrwymo ag artistiaid - gan feithrin talent newydd, adeiladu sgiliau ac uchelgais - a chreu cynyrchiadau newydd pwysig sy'n teithio'n genedlaethol.

Mae Contact yn unigryw o ran ei ethos o roi'r penderfyniadau a wneir gan bobl ifanc yn ganolog i bopeth a wnawn. Mae pobl ifanc hefyd yn gweithio ochr yn ochr ag aelodau o staff i benderfynu ar y rhaglen artistig, gan benodi staff a gweithredu fel aelodau llawn o'r Bwrdd. Mae'r model hwn yn cael ei weld fel esiampl o arfer gorau mewn perthynas â phobl ifanc ac amrywiaeth, gan ddylanwadu ar sefydliadau yn genedlaethol.

www.contactmcr.com

Mae **FabLab Belfast** yn yr Ashton Community Trust yn weithdy digidol gyda'r holl offer diweddaraf sy'n rhoi'r gallu i bawb, o blant i entrepreneuriaid a busnesau, i droi eu syniadau a'u cysyniadau yn realiti. Y tu mewn fe welwch offer a meddalwedd dylunio 3D, peiriannau a chyfrifiaduron o'r radd flaenaf gan gynnwys argraffydd 3D, torrwr laser, llwybrydd CNC, gorsaf electroneg lawn a thorrwr finyl ar raddfa fawr.

Sefydlwyd yn 2012 fel un o'r FabLabs cyntaf yn Iwerddon yn gweithio gyda dros 2,500 o bobl y flwyddyn, gyda nifer ohonynt yn dod o ardaloedd gyda llawer o amddifadedd cymdeithasol, ar ben hynny mae FabLab Belfast yn arwain y blaen wrth sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o FabLabs ledled y DU ac Iwerddon.

Ganwyd FabLabs o brosiect allgymorth gan Massachusetts Institute of Technology (MIT) yng nghanol dinas Boston yn 2005. Ers hynny mae FabLabs wedi lledaenu'n gyflym o amgylch y byd, ac erbyn hyn mae dros 1,000 FabLab mewn lleoliadau mor amrywiol â chanol dinasoedd mawr UDA i bentrefi Affrica.

Mae Ashton Community Trust (ACT) yn fenter gymdeithasol ac ymddiriedolaeth ddatblygu sy'n ceisio gwneud Gogledd Belfast yn lle gwell i'r trigolion fyw a llewyrchu. Mae'n gwneud hyn trwy ddarparu gwasanaethau, cyflogaeth, hyfforddiant a datblygiad cymunedol. Mae ACT wedi tyfu dros yr ugain mlynedd diwethaf ac mae bellach yn cyflogi dros 160 o bobl ac mae ganddo drosiant blynyddol dros £3m.

www.fablabbelfast.org

Mae **Theatr Genedlaethol Cymru** wedi bod yn gwneud cynyrchiadau cyfrwng Saesneg mewn lleoliadau ledled Cymru, y DU, yn rhyngwladol ac ar-lein ers mis Mawrth 2010. Mae'n gweithredu o swyddfa fach yng nghanol dinas Caerdydd, ond yn gweithio ar draws y wlad a'r tu hwnt, gan ddefnyddio tirwedd gyfoethog ac amrywiol Cymru, y trefi, dinasoedd a phentrefi, ei straeon anhygoel a'r cyfoeth o ddoniau fel dylanwad. Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

nationaltheatrewales.org